| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU GOFAL |
| **DYDDIAD** | 13 Mehefin 2024 |
| **TEITL** | Grŵp Craffu Cyd-Bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I ethol aelod i gynrychioli'r Pwyllgor Craffu ar Grŵp Craffu Cyd-Bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru |
| **AWDUR** | Llywela Haf Owain, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu |

1. Yn 2015, sefydlwyd Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth mewn ymateb i Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru gyda'r nod o sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yng Nghanolbarth Cymru yn effeithiol ar gyfer ei boblogaeth. Yn dilyn cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru bod Canolbarth Cymru yn ardal gynllunio ddynodedig, cafodd Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth ei drawsnewid i ffurfio Cyd-Bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal ym mis Mawrth 2018.

2. Mae Bwriad Strategol Cyd-Bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal yn cyd-fynd â cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, 'Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol'. Gweledigaeth y Cyd-Bwyllgor yw:

   "Bod mynediad teg yn cael ei ddarparu ar gyfer poblogaeth Canolbarth Cymru i wasanaethau iechyd a gofal integredig, diogel, cynaliadwy, o ansawdd uchel."

3. Mae ardal gorchwyl y Cyd-Bwyllgor yn cynnwys Powys, Ceredigion a Meirionnydd.

4. Mae aelodaeth Cyd-Bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal yn cynnwys Prif Weithredwyr sefydliadau gofal iechyd partner, sef:

   - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
   - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
   - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
   - Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

5. Ynghyd â chynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol. Cynrychiolwyr Gwynedd ar y Cyd-Bwyllgor yw'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

6. Rôl y Grŵp Craffu yw edrych ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghanolbarth Cymru a materion sy'n effeithio ar bobl sy'n byw yn ardaloedd perthnasol siroedd Ceredigion, Gwynedd a Phowys.

7. Mae’n gyfle i Gynghorwyr y tair sir graffu darpariaeth y gwasanaeth iechyd a gofal, gofyn cwestiynau ynghylch sut mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud, ystyried a ellir cyflwyno gwelliannau i'r gwasanaeth a gwneud argymhellion i'r perwyl hwn.

8. Mae craffu yn chwarae rôl hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y broses o wneud penderfyniadau.

9. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Gofal ar 7 Gorffennaf 2022, enwebwyd y Cynghorwyr Linda Ann Jones, Eryl Jones-Williams a John Pughe i gynrychioli’r pwyllgor ar y Grŵp Craffu.

10. Mae’r Cynghorydd Eryl Jones-Williams wedi nodi ei ddymuniad i sefyll lawr o’r Grŵp Craffu.

11. Mae aelodau’r Grŵp Craffu yn cael gwahoddiad i gyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor. Cynhelir dau gyfarfod o’r Cyd-Bwyllgor mewn blwyddyn:

    - Cyfarfod Blynyddol ym mis Ebrill gyda’i brif bwrpas i fod yn gyfarfod cynllunio rhaglen waith y Cyd-Bwyllgor.
    - Cynhadledd Flynyddol ym mis Tachwedd sydd yn gyfle i arddangos gwaith y Cyd-Bwyllgor ac ymgysylltu gyda phartneriaid ac aelodau’r cyhoedd ar ei waith.

12. Rôl aelodau’r Grŵp Craffu yng nghyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yw arsylwi ac i ofyn cwestiynau o dan yr eitem ‘Rydym yn gwrando’. Pe dymunai unrhyw Aelod dderbyn mwy o wybodaeth ar ffurf adroddiad neu gyflwyniad yn dilyn cyfarfod o’r Cyd-Bwyllgor, bydd cyfarfod o’r Grŵp Craffu yn cael ei drefnu a’i gynnal pryd hynny.

**13. Gofynnir i’r Pwyllgor Craffu Gofal ethol aelod i gynrychioli’r Pwyllgor ar Grŵp Craffu Cyd-Bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru.**